Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A HEDDLU DYFED-POWYS**

**Protocol ar y Cyd**

**Adolygu Achosion Cwyn Sydd Wedi Cau**

**(Hap Samplo)**

## Cyflwyniad

Yn unol â darpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ("y Comisiynydd") ddyletswydd statudol i gynnal gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Rhaid iddo hefyd fonitro perfformiad yr heddlu mewn perthynas â sut y mae'n trin cwynion sy'n ymwneud â materion cyfarwyddyd a rheoli.

Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i:

- geisio'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trin cwynion sy'n cael eu hystyried gan Heddlu Dyfed-Powys
- craffu ar berfformiad yr heddlu mewn perthynas â thrin cwynion ac anfodlonrwydd
- cyfarwyddo Prif Swyddogion o ran trin cwynion o'r fath lle bo angen.

Disgwylir i'r Comisiynydd gydymffurfio â'i ddyletswyddau drwy hap samplo achosion cwyn sydd wedi'u cau gan Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r protocol hwn ond yn ymwneud â hap samplo achosion cwyn sydd wedi cau, ac nid yw'n cynnwys y ddyletswydd i oruchwylio cwynion sy'n mynd rhagddynt neu'r pŵer cyfarwyddyd ehangach newydd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn yr heddlu sy'n cael ei bennu gan Orchymyn Protocol Plismona Lleol 2011.

Nid ymyrryd â'r broses apêl o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yw diben y ddogfen hon. Dim ond y llysoedd sy'n medru gwyrdroi unrhyw benderfyniad a wneir gan y Corff Apêl Perthnasol drwy'r Broses Adolygiad Barnwrol.

## Diben

Diben hap samplo yw hwyluso craffu ar broses rheoli cwynion yr Heddlu. Dywed nifer y cwynion yn erbyn yr heddlu sy'n cael eu trin gan Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys y byddai'n anymarferol i'r Comisiynydd oruchwylio pob achos cwyn. Mae hap samplo achosion o'r fath yn caniatáu i'r Comisiynydd wirio achosion ar hap a chyflawni ei gyfrifoldeb i fonitro a goruchwylio o dan y ddeddfwriaeth. Nid adolygu'r penderfyniad terfynol mewn achosion unigol yw diben hap samplo, ond yn hytrach, ymgymryd ag adolygiad cyffredinol o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau, technegau trin cwynion a chyfiawnder naturiol er mwyn sicrhau hyder cyhoeddus yn system gwyno'r heddlu. Dylid defnyddio hap samplo ymhellach fel arf ar gyfer adnabod deilliannau dysgu a thueddiadau i'w trafod a'u gweithredu gyda Heddlu Dyfed-Powys.

**Gweithdrefn**

**1. Nifer yr Achosion i'w Hadolygu**

Bydd 10% o'r holl achosion anfodlonrwydd ac achosion cwyn caeedig a gafodd eu trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol yn gyfan gwbl neu mewn perthynas â maes cwyn penodol yn cael eu hasesu yn ôl nifer y cwynion yn y categori a nodir.

**2. Amlder Adolygiadau**

2.1 Dewisir y maen prawf neu'r meini prawf ar gyfer dethol achosion gan y Comisiynydd ar sail chwarterol yn unol â pharagraff 4 isod. Cyflwynir a thrafodir canlyniadau'r ymarfer hap samplo mewn cyfarfodydd dilynol gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a Heddlu Dyfed-Powys.

2.2 Bydd y meini prawf ar gyfer dethol yr achosion hefyd yn cael eu dewis yn ôl y galw gan y Comisiynydd os oes maes pryder yn cael ei godi ac mae'r Comisiynydd yn teimlo bod angen hap samplo maes penodol er mwyn gweithio yn erbyn mater sy'n datblygu.

**3. Mynediad at Achosion**

3.1 Bydd gan y Comisiynydd fynediad rhydd at yr holl ddeunydd sydd angen.

3.2 Ni fydd Heddlu Dyfed-Powys yn adolygu achos cyn ei roi i'r Comisiynydd. Dylid darparu'r achos yn yr union fformat ag ydoedd pan gafodd ei gau. Er mwyn lleihau'r cyfle ar gyfer unrhyw adolygiad, disgwylir i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu'r holl achosion a ddewiswyd o fewn 5 diwrnod gwaith o ddyddiad y cais gan y Comisiynydd.

**4. Dewis Achosion a Mathau o Achosion i'w Hadolygu**

4.1 Bydd gan y Comisiynydd ryddid llwyr i ddewis yr achosion i'w hadolygu o'r holl achosion cwyn sydd wedi'u cwblhau.

4.2 Bydd y Comisiynydd yn gofyn am achosion cwyn sydd wedi'u cwblhau yn ystod y 6 mis diwethaf, ond nid llai na 3 mis cyn yr adolygiad hap samplo heblaw bod maes pryder penodol wedi'i godi. Os digwydd hyn, mae'n bosibl y bydd achosion cwyn wedi'u cwblhau o fewn y 3 mis cyn dyddiad yr adolygiad.

4.3 Wrth gwblhau adolygiad, bydd y Comisiynydd yn ystyried y canlynol:

a. Y dulliau ar gyfer dod â'r mater i ben (e.e. wedi'i ddatrys yn lleol, wedi'i gynnal, heb ei gynnal, wedi'i derfynu/datgymhwyso, cyfarwyddyd a rheoli ac wedi'i dynnu yn ôl, heb ei gofnodi, adfer gwasanaeth);

b. Categorïau'r cwynion (e.e. fel yr amlinellir yng Nghanllawiau'r IOPC ar gofnodi cwynion o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 – categorïau Honiad Tabl Un ar gyfer camymddygiad yr heddlu);

c. Tueddiadau sefydledig neu feysydd pryder cyfredol;

ch. Y peryglon sy'n gysylltiedig â chategorïau cwyn penodol (e.e. ni fyddai achosion sy'n cael eu rheoli/ymchwilio gan yr IOPC o reidrwydd yn deilwng ar gyfer adolygiad gan y Comisiynydd.)

d. Ystyriaethau daearyddol (e.e. lle mae nifer anghymesur o gwynion yn cael eu derbyn yn erbyn swyddogion/staff o fewn Unedau Rheoli Sylfaenol penodol Heddlu Dyfed-Powys).

4.4 Mae ystadegau a gyflwynir gan yr IOPC yn y cyfarfodydd chwe-misol yn canolbwyntio'n benodol ar berfformiad Heddlu Dyfed-Powys o ran ymdrin â chwynion a chymhariaeth o berfformiad yn genedlaethol. Gellir defnyddio ystadegau o'r fath i adnabod tueddiadau neu feysydd pryder, neu er mwyn tynnu sylw at feysydd penodol sydd werth eu hap samplo ar gyfer y chwarter penodol hwnnw.

4.5 Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfodydd chwe-misol, bydd y Comisiynydd yn gyfrifol am ddewis thema briodol neu faes cwyn i'w hap samplo a hysbysu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC).

4.6 Yna, bydd y Comisiynydd yn gofyn am bob cyfeirnod cwyn sy'n ymwneud ag achosion caeedig yn unol â'r maen prawf neu'r meini prawf a nodir gan y Comisiynydd yn ystod cyfnod penodol, ac o'r data hwnnw, dewisir sampl o gyfeirnodau achos ar hap.

4.7 Unwaith y bydd y cyfeirnodau achos wedi'u dewis, bydd y Comisiynydd yn anfon cais ffurfiol drwy e-bost am yr achosion electronig cyfatebol gan Uwch Reolwr yr Adran Safonau Proffesiynol i'w hadolygu.

**5. Gwiriadau i'w Cyflawni ar yr Achosion**

5.1 Wrth adolygu'r achosion, bydd y Comisiynydd yn ystyried y canlynol:

a. Pa un ai a gafodd y gŵyn ei thrin gan yr awdurdod priodol o dan y ddeddfwriaeth briodol;

b. Pa un ai a gafodd y broses/polisi cytunedig ei ddilyn a'i ddogfennu'n gywir;

c. Pa mor ymatebol oedd yr Heddlu i'r achwynydd a'r swyddog(ion) cysylltiedig:

i. Pa un ai a oedd yr achos wedi'i gychwyn a'i gwblhau mewn amser rhesymol o dan yr amgylchiadau ac o'i gymharu â difrifoldeb y gŵyn, gan gynnwys pa un ai a oedd yr amser ac adnoddau eraill a roddwyd i'r achos yn gymesur;

ii. Pa un ai a oedd yr Heddlu wedi cyfathrebu'n glir, yn rheolaidd ac yn gywir â'r achwynydd a pha un ai a oedd y swyddog wedi rhoi adroddiadau statws rheolaidd iddo ac wedi'i gynghori ynghylch canlyniadau'r ymchwiliad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol;

iii. Pa un ai a oedd yr Heddlu wedi cyfrif am unrhyw anghenion/amgylchiadau unigryw a oedd gan yr achwynydd neu'r swyddog(ion);

ch. Adolygu pa un ai a yw gweithdrefnau a thechnegau trin cwynion wedi'u dilyn, a pha un ai a oes tystiolaeth gefnogol;

d. Pa un ai a oes modd adnabod tueddiadau mewn perthynas â'r achosion a allai arwain at gamau gweithredu;

dd. Pa un ai a oes angen gwneud unrhyw newidiadau er mwyn gwella perfformiad yr Heddlu o ran rheoli cwynion neu feysydd ehangach ei weithrediadau.

**6. Rôl Unigolion sy'n gyfrifol am Gynnal yr Adolygiad**

6.1 Bydd y Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth yn adolygu'r achosion ar ran y Comisiynydd, ynghyd ag unrhyw unigolion eraill sydd wedi'u hawdurdodi gan y Comisiynydd i wneud hynny.

6.2 Gan mai un o swyddogaethau'r broses hap samplo yw sicrhau hyder cyhoeddus yn y broses rheoli cwynion, lle mae gan aelod staff sy'n gyfrifol am gyflawni'r broses:

- Berthynas â'r bobl neu'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r gŵyn; neu'n
- Credu y gallai canfyddiad bod ganddynt berthynas o'r fath godi

Rhaid i'r aelod staff hwnnw esgusodi ei hun rhag craffu ar yr achos penodol hwnnw.

6.3 Gall amgylchiadau godi lle mae'n amlwg bod achos cwyn a ddewiswyd yn tynnu sylw at gŵyn a wnaed yn erbyn Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys a/neu'r Comisiynydd a swyddog arall. Lle'r ystyriwyd y gŵyn yn erbyn y Prif Gwnstabl gan yr aelod staff sy'n cynnal ar adolygiad hap samplo ac ni chafodd ei chynnal/roedd yn destun datgymhwysiad, neu lle na chafodd y gŵyn yn erbyn y Comisiynydd ei chynnal ar ôl ei hystyried, rhaid i'r aelod staff hwnnw esgusodi ei hun rhag craffu ar yr achos penodol hwnnw.

6.4 I'r gwrthwyneb, bydd yn briodol i'r aelod staff dynodedig esgusodi ei hun rhag craffu ar achos cwyn lle mae'r aelod staff hwnnw wedi bod yn destun cwyn gan yr achwynydd o'r blaen.

6.5 Os yw aelod staff wedi'i atal rhag hap samplo achos penodol, bydd y Pennaeth Staff yn adolygu'r achos dan sylw a bydd datganiad ffurfiol o ddiddordeb/diddordeb canfyddedig yr aelod staff yn cael ei gofnodi yn erbyn yr achos.

6.6 Bydd yr achosion a ddewisir i'w hadolygu ar gael yn swyddfeydd yr Adran Safonau Proffesiynol.

6.7 Ceisir hyfforddiant ar gyfer staff tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a fydd yn gyfrifol am gynnal yr adolygiad.

6.8 Pan mae angen gwybodaeth bellach, gwneir cais ffurfiol ar gyfer hyn drwy e-bost at sylw Uwch Reolwr yr Adran Safonau Proffesiynol. Cedwir cofnod o geisiadau gwybodaeth er mwyn sicrhau y derbynnir atebion i bob cwestiwn.

6.9 Ni ddylai'r adolygydd achos gysylltu â'r Swyddog Ymchwilio yn uniongyrchol, ac ni fydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn gysylltiedig â'r adolygiad o'r achos, heblaw er mwyn rhoi gwybodaeth bellach pan fod angen.

6.10 Pan ofynnir am wybodaeth ychwanegol, mae'n bosibl y bydd y Comisiynydd eisiau gohirio barnu achos penodol hyd nes y darperir y wybodaeth ofynnol.

**7. Trefniadau ar gyfer Cofnodi'r Adolygiad**

7.1 Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cadw cofnod o bob adolygiad hap samplo, a bydd y cofnod ond yn cael ei gymeradwyo gan aelod o staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau a does dim gwybodaeth sydd eto i ddod.

**8. Gweithdrefnau ar gyfer Ystyried Canlyniadau'r Adolygiad**

8.1 Bydd adroddiad chwarterol ar ganlyniadau'r sesiwn hap samplo'n cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Comisiynydd ar gyfer ei gymeradwyaeth. Yna, bydd yr adroddiad yn cael ei anfon ymlaen at sylw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a Heddlu Dyfed-Powys. Bydd yr adroddiad yn aros fel eitem agenda i'w drafod ym mhob cyfarfod.

8.2 Bydd adroddiad hefyd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Comisiynydd ar gyfer ei gymeradwyaeth pryd bynnag y bydd angen cynnal adolygiad hap samplo ar hap mewn ymateb i duedd amlwg mewn maes penodol.

8.3 Rhaid i'r adroddiad gael ei baratoi o fewn 14 diwrnod ar ôl cwblhau'r broses hap samplo.

8.4 Bydd yr adroddiad yn:

a) Darparu cofnod o'r hap samplo a gwblhawyd yn ystod y cyfnod perthnasol;
b) Adnabod unrhyw feysydd o arfer gorau y tynnwyd sylw ato gan yr adolygiadau a gynhaliwyd;
c) Nodi unrhyw bryderon; a
ch) Nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer dysgu neu wella.

8.5 Bydd cyfle gan yr Adran Safonau Proffesiynol i ystyried yr adroddiad ac ymateb â'u hystyriaethau/adborth o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr adroddiad.

8.6 Lle mae'r adroddiad yn nodi pryderon neu gyfleoedd ar gyfer dysgu neu wella, disgwylir i'r Adran Safonau Proffesiynol adrodd ar gynnydd mewn mynd i'r afael â'r un peth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gyda Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a'r Comisiynydd.